**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Addysg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

## Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2024. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Lynne Neagle AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**

15 Awst 2024

## Rhan un

## Disgrifiad

1. Mae Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2024 ("Rheoliadau 2024") yn diwygio Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013 ("Rheoliadau 2013") sy'n nodi'r gofynion hyfforddi ar gyfer llywodraethwyr ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

## Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2. Dim.

## Y cefndir deddfwriaethol

3. Mae pwerau Gweinidogion Cymru i wneud Rheoliadau 2024 wedi'u cynnwys yn adrannau 22(3) a (4) a 32(2) o Fesur Addysg (Cymru) 2011 ("Mesur 2011").

4. Mae adran 22(1) o Fesur 2011 yn darparu bod yn rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru sicrhau y darperir, am ddim, i bob llywodraethwr wybodaeth y mae'r awdurdod lleol yn barnu ei bod yn briodol mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau llywodraethwr. Mae adran 22(3) o Fesur 2011 yn darparu y caiff Rheoliadau hefyd ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol yng Nghymru sicrhau y darperir hyfforddiant rhagnodedig am ddim i lywodraethwyr rhagnodedig ysgolion a gynhelir. Mae adran 22(4) o Fesur 2011 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru nodi cynnwys yr hyfforddiant hwnnw mewn dogfen a gyhoeddir ar wahân.

5. Mae Rheoliadau 2013 yn rhagnodi'r gofynion hyfforddi ar gyfer llywodraethwyr mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae cynnwys gofynnol yr hyfforddiant wedi'i nodi mewn dogfennau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ac y cyfeirir atynt yn Rheoliadau 2013.

6. Gwneir Rheoliadau 2024 o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol yn unol ag adran 32(3) o Fesur 2011.

## Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

7. Diben Rheoliadau 2024 a'r effaith y bwriedir iddynt eu cael yw diwygio Rheoliadau 2013 er mwyn diweddaru'r gofynion hyfforddi ar gyfer cadeiryddion a'r hyfforddiant ymsefydlu ar gyfer llywodraethwyr newydd.

8. Mae Rheoliadau 2013 yn darparu bod yr hyfforddiant cyfredol y mae'n ofynnol i gadeirydd corff llywodraethu ei gwblhau wedi ei nodi mewn dogfen o'r enw "Cynnwys yr hyfforddiant ar gyfer cadeiryddion

llywodraethwyr yng Nghymru" ("dogfen hyfforddiant ar gyfer cadeiryddion 2013"). Mae Rheoliad 2(2)(a) o Reoliadau 2024 yn diwygio Rheoliadau 2013 er mwyn rhoi yn lle'r cyfeiriad at ddogfen hyfforddiant ar gyfer cadeiryddion 2013 gyfeiriad at y ddogfen hyfforddiant newydd i gadeiryddion o'r enw "Hyfforddiant i gadeiryddion llywodraethwyr yng Nghymru" a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024 ("dogfen hyfforddiant i gadeiryddion 2024").

9. Mae Rheoliadau 2013 yn darparu bod y gofynion hyfforddiant ymsefydlu cyfredol ar gyfer llywodraethwyr wedi eu nodi mewn dogfen o'r enw "Cynnwys hyfforddiant ymsefydlu ar gyfer llywodraethwyr yng Nghymru" ("dogfen hyfforddiant ymsefydlu 2013"). Mae Rheoliad 2(2)(b) o Reoliadau 2024 yn diwygio Rheoliadau 2013 er mwyn rhoi yn lle'r cyfeiriad at ddogfen hyfforddiant ymsefydlu 2013 gyfeiriad at y ddogfen hyfforddiant ymsefydlu newydd o'r enw "Hyfforddiant sefydlu i lywodraethwyr ysgolion yng Nghymru" a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024 ("dogfen hyfforddiant sefydlu 2024").

10. Bwriad polisi Rheoliadau 2013 oedd ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu'r hyfforddiant sy'n ofynnol gan Reoliadau 2013 am ddim i lywodraethwyr. Am y rheswm hwnnw, un o'r pwerau galluogi a enwyd yn Rheoliadau 2013 oedd adran 22(3) o Fesur 2011 (h.y. y pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru ddarparu'r *hyfforddiant rhagnodedig* am ddim). Mae'r diffiniadau o'r gofynion hyfforddi amrywiol yn Rheoliadau 2013 yn croesgyfeirio at adran 22(4) o Fesur 2011 (h.y. y pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r *hyfforddiant rhagnodedig* mewn dogfen ar wahân). Yr arfer drafftio modern fyddai cynnwys darpariaeth benodol ym mhrif gorff yr offeryn i'w gwneud yn ofynnol yn benodol i awdurdodau lleol ddarparu'r hyfforddiant am ddim. Byddai hyn yn rhoi gwell eglurder i'r darllenydd.

11. Felly, mae Rheoliadau 2024 yn diwygio Rheoliadau 2013 ymhellach drwy gynnwys darpariaeth fod yn rhaid i awdurdod lleol ddarparu'r hyfforddiant sy'n ofynnol gan Reoliadau 2013 am ddim, a dileu unrhyw amwysedd posibl. Yn unol â hynny, mae Rheoliadau 2024 yn cynnwys:

   a. paragraff newydd (4) yn rheoliad 3 o Reoliadau 2013 i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol sy'n cynnal ysgol sicrhau y darperir yr hyfforddiant i gadeirydd am ddim,

   b. paragraff newydd (7) yn rheoliad 4 o Reoliadau 2013 i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol sy'n cynnal ysgol sicrhau y darperir yr hyfforddiant ymsefydlu am ddim, ac

   c. paragraff newydd (7) yn rheoliad 5 o Reoliadau 2013 i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol sy'n cynnal ysgol sicrhau y darperir yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion am ddim. Mae'r gofynion hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion ar gyfer llywodraethwyr wedi eu nodi mewn dogfen o'r enw "Hyfforddiant i lywodraethwyr

ysgol yng Nghymru: deall rôl data o ran cefnogi hunanwerthuso a gwella mewn ysgolion", a chyfeirir ati yn y diffiniad o "yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2013.

12. Mae rheoliad 3 o Reoliadau 2024 yn gwneud y darpariaethau arbed canlynol:

a. darpariaeth arbed i sicrhau nad oes rhaid i gadeiryddion cyrff llywodraethu gwblhau'r hyfforddiant i gadeirydd yn unol â dogfen hyfforddiant i gadeiryddion 2024 os ydynt eisoes wedi cwblhau'r hyfforddiant i gadeirydd sy'n ofynnol gan Reoliadau 2013 cyn i Reoliadau 2024 ddod i rym, a

b. darpariaeth arbed i sicrhau nad oes rhaid i lywodraethwyr ysgol gwblhau'r hyfforddiant ymsefydlu yn unol â dogfen hyfforddiant sefydlu 2024 os ydynt eisoes wedi cwblhau'r hyfforddiant ymsefydlu sy'n ofynnol gan Reoliadau 2013 cyn i Reoliadau 2024 ddod i rym.

**Ymgynghori**

13. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar Reoliadau 2024. Nid yw'r pwerau galluogi yn ei gwneud yn ofynnol i ymgynghoriad o'r fath gael ei gynnal cyn gwneud Rheoliadau 2024. Fodd bynnag, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru â swyddogion cefnogi llywodraethwyr ("y grŵp") awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ar gynnwys diwygiedig y dogfennau hyfforddi rhwng 16 Chwefror ac 8 Mawrth 2024, gan gynnwys cynnal trafodaeth mewn rhwydwaith o swyddogion cefnogi llywodraethwyr ar 22 Chwefror 2024.

14. Rhannwyd y diwygiadau drafft a wnaed i'r dogfennau hyfforddi â'r grŵp, a gwahoddwyd sylwadau ar briodoldeb y newidiadau.

15. Roedd y swyddogion hynny o'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol a chanddynt gyfrifoldeb am ddarparu hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion wedi darparu adborth ac awgrymiadau cryno, ond gwerthfawr, i wella ansawdd a chynnwys y dogfennau hyfforddi newydd.

**Rhan dau**

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

16. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â Rheoliadau 2024. Cafodd asesiad effaith rheoleiddiol ei gynnal.

17. Arweiniodd argymhellion gan Gomisiynydd Plant Cymru a'r sefydliad gwrth-hiliol, DARPL, yn ogystal â sawl diwygiad addysg diweddar yng

Nghymru at yr angen i adolygu'r gofynion hyfforddi. Ystyriwyd yr opsiynau canlynol:

**Opsiwn 1 – gwneud dim:**

18. Nid oedd yr opsiwn hwn yn hyfyw o ran cyflawni'r amcanion polisi i sicrhau bod pob llywodraethwr a phob cadeirydd llywodraethwyr yn cael yr hyfforddiant gofynnol a phriodol diweddaraf.

19. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid gwneud y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu'r hyfforddiant am ddim yn fwy eglur drwy roi effaith gyfreithiol i fwriad y polisi gwreiddiol. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod yr amwysedd posibl hwn wedi achosi unrhyw anhawster i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion hyd yn hyn, mae'n bosibl y gallai wneud hynny yn y dyfodol, ac felly ystyrir ei bod yn briodol diwygio Rheoliadau 2013 i ddileu'r amwysedd posibl hwnnw. Felly, nid ystyriwyd bod yr opsiwn o wneud dim yn briodol.

**Opsiwn 2 – diwygio Rheoliadau 2013 i ddiweddaru dogfennau gofynion hyfforddi, a'i gwneud yn eglur ei bod yn ofynnol i'r awdurdod lleol ddarparu'r hyfforddiant am ddim:**

20. Ystyriwyd mai'r opsiwn hwn oedd y ffordd orau o weithredu. Nid oedd y gofynion hyfforddi i gadeiryddion cyrff llywodraethu na'r gofynion ar gyfer hyfforddiant ymsefydlu wedi eu hadnewyddu ers 2013, felly roedd angen eu hadolygu, er gwaethaf yr argymhellion a'r diwygiadau diweddar.

21. Diwygiwyd Rheoliadau 2013 ddiwethaf yn 2021 i roi effaith i hyfforddiant diwygiedig ar ddata perfformiad ysgol. Nid oedd hwnnw'n ymarfer costus nac yn un a gymerodd lawer o amser.

22. Mae'r awdurdodau lleol wedi croesawu bod y dogfennau ar ofynion hyfforddi yn cael eu hadnewyddu.

23. ystyried yr angen am eglurder ynghylch a oedd Rheoliadau 2013 yn benodol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu'r hyfforddiant sy'n ofynnol gan Reoliadau 2013 am ddim, ystyrir ei bod yn briodol diwygio Rheoliadau 2013 i ddileu'r amwysedd posibl hwnnw. A derbyn bod angen i'r polisi ddiweddaru'r hyfforddiant sy'n ofynnol gan Reoliadau 2013, roedd Rheoliadau 2024 yn darparu cyfrwng deddfwriaethol priodol i wneud hynny.

**Costau a manteision**

24. Ni ddylai fod unrhyw gost nac effaith sylweddol i awdurdodau lleol weithredu a chyflawni'r newidiadau hyn, ond bydd angen adnoddau ac amser i sicrhau bod y newidiadau'n cael eu gwneud i ddeunyddiau

hyfforddi. Bydd hyn yn golygu cost cyfle gan fod disgwyl i'r newidiadau gael eu gwneud drwy staff cyfredol a'r gyllideb gyfredol. Nid yw'r awdurdodau lleol wedi codi unrhyw bryderon gyda Llywodraeth Cymru o ran cyflawni'r gofynion hyfforddi newydd.

25. Mae Rheoliadau 2024 yn cynnwys darpariaethau arbed sy'n golygu na fydd yn rhaid i lywodraethwyr a chadeiryddion llywodraethwyr wneud yr hyfforddiant newydd os ydynt wedi cwblhau'r hyfforddiant a oedd yn ofynnol yn flaenorol gan Reoliadau 2013. Felly, ni fydd costau ychwanegol yn hyn o beth.

26. Roedd swyddogion cefnogi llywodraethwyr sy'n darparu hyfforddiant i lywodraethwyr ysgolion wedi cyfrannu at y gwaith o ddrafftio'r gofynion hyfforddi newydd. Felly, mae'n debygol y byddant eisoes yn paratoi i ddiwygio eu hyfforddiant ymsefydlu presennol ar gyfer cadeiryddion yn barod ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd pan ddaw Rheoliadau 2024 i rym.

27. Ni fydd y gofynion hyfforddi newydd yn fwy beichus i lywodraethwyr nac yn treulio mwy o'u hamser i'w cyflawni, felly ni fydd costau ychwanegol yn hyn o beth. Bydd y newidiadau yn sicrhau bod llywodraethwyr newydd yn cael hyfforddiant ymsefydlu cyfredol sy'n ystyried diwygiadau ac argymhellion diweddar gan Gomisiynydd Plant Cymru a sefydliad DARPL. Bydd hyn o fudd i ysgolion a dysgwyr ledled Cymru.

28. Er bod Rheoliadau 2024 yn diwygio Rheoliadau 2013 er mwyn ei gwneud yn eglur bod yn rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu'r hyfforddiant sy'n ofynnol dan Reoliadau 2013 am ddim, mae'r awdurdodau lleol eisoes wedi bod yn gwneud hyn ers i Reoliadau 2013 ddod i rym. Diben y diwygiad hwnnw yw dileu'r amwysedd posibl a allai godi wrth ddrafftio'r gofynion. Yn sgil hynny ni fydd cost ychwanegol o ganlyniad i'r diwygiad hwn.

## Asesu'r gystadleuaeth

29. Ni wnaed asesiad o'r gystadleuaeth gan nad yw'r cynnig yn effeithio ar fusnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol.

## Adolygiad ar ôl gweithredu

30. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro gweithrediad Rheoliadau 2024 i sicrhau eu bod yn cael yr effaith a fwriadwyd.

31. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gysylltu'n rheolaidd â'r awdurdodau lleol wrth i'r Rheoliadau a'r gofynion hyfforddi newydd gael eu hymgorffori ac wrth i'r newidiadau gael eu gweithredu. Gofynnir am adborth, a chaiff yr adborth hwnnw ei ystyried yn ôl yr angen.